

**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 17eg Ionawr 2018 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

## **YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Chamberlain Jones, Ms. J. Hughes, A.S. Johnson, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, B. Mellor.

Hefyd yn mynychu: y Cynghorydd T. Thomas

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

### **44. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Mrs. J. Butterfield MBE, Ms. J. Hughes, Ms. V. Roberts, A.J. Rutherford a Miss C.L. Williams

### **45. AMDDIFFYN SIOPAU DOSBARTH A1 YNG NGHANOL MASNACHOL Y RHYL**

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad ysgrifenedig ar y gofyniad dan Gynllun Strategol y Cyngor Tref i'r Pwyllgor Cynllunio wrthwynebu unrhyw gais fyddai'n arwain at golli uned fanwerthu Dosbarth A1 o Ganol Masnachol y Rhyl.

Dywedodd y Clerc bod y Cynllun Strategol nawr yn cael ei arolygu gan y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ac roedd yn gofyn am farn y Pwyllgor ar a ddylid newid y gofyniad presennol.

Teimlai'r Aelodau y dylai'r polisi fod yn hyblyg er mwyn eu galluogi i ystyried pob cais ar ei haeddiant, yn enwedig lle byddai'n arwain at eiddo gwag hirdymor yn cael ei ddefnyddio unwaith eto.

**PENDERFYNWYD** bod Clerc y Dref yn hysbysu'r Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol yn unol â hynny.

### **46. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Cyn ystyried, atgoffodd y Cadeirydd a'r Clerc yr Aelodau o bolisi mabwysiedig y Cyngor Tref a oedd yn gofyn i'r Aelodau hysbysu'r Cadeirydd o unrhyw geisiadau yr hoffent gael eu trafod cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**Datganodd y Cynghorydd A.S. Johnson ei fuddiant personol yng Nghais Rhif 45/2017/1164 gan fod ei blant yn mynychu'r ysgol.**

**Datganodd y Cynghorydd B. Mellor ei fuddiant personol a rhagfarnus yng Nghais Rhif 45/2017/1164 gan ei fod yn Llywodraethwr wedi ei benodi gan yr AALI yn yr Ysgol ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth na'r pleidleisio ar y mater.**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a **PHENDERFYNWYD** fel y nodir arnynt nawr.

Nodyn 1: Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.  
signage of equal prominence, reflecting the linguistic nature of the Rhyl area.

<b>ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO</b>	
46.1	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> 90 Stryd Fawr, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Bodfor</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> Ms J. Hughes Ms J. McAlpine</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1123</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Gosod ffaniau echdynnu yn y cefn.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. Tim Roberts, 8 Llys Idris, Llanelwy .</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad</i></p>
46.2	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> 90 Stryd Fawr, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Bodfor</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> Ms J. Hughes Ms J. McAlpine</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1087</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Newid defnydd siop fanwerthu bresennol yn siop goffi gyda chyfleusterau nwyddau ar glud ategol.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. Tim Roberts, 8 Llys Idris, Llanelwy.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol:</i></p> <p><i>Pe cawsai'r cynnig ei gymeradwyo, byddai'n arwain at golli uned fanwerthu A1 o Stryd Fawr y Rhyl yn groes i bolisiau PSE7 a PSE 8 y Cynllun Lleol a Fabwysiadwyd.</i></p> <p>(Mae'r Cyngor yn nodi bod y safle wedi ei ddefnyddio'n rheolaidd fel siop fanwerthu yn y gorffennol diweddar.)</p>
46.3	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> Tir ar Safle Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones ac Ysgol Gynradd Mair, Ffordd Cefndy, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Cefndy</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> J. Ball Mrs. P.M. Jones P. Prendergast</p>

	<p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1164</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Dymchwel adeiladau ysgol presennol ac adeiladu ysgol newydd ar gyfer 920 o ddisgyblion yn ymgorffori cylch chwarae, lleoedd cynradd ac uwchradd a man chwarae cysylltiedig, cae chwarae pob tywydd, manau chwarae caled, mynediad a threfniadau parcio.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Cyngor Sir Ddinbych</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
46.4	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> 119 Stryd Fawr, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Bodfor</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> Ms J. Hughes Ms J. McAlpine</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1169</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Arddangos 1 arwydd ffasgia gyda golau mewnol ac 1 arwydd bargodol gyda golau mewnol.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. Zun o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
46.5	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> 1 Llys Sion, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Tynewydd</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> B. Blakeley B. Jones Miss C.L. Williams</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1179</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Adeiladu estyniad a tho ar oleddf i fodurdy sengl presennol.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. Ian Richards o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
46.6	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> 43 Clifton Park Road, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Tynewydd</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> B. Blakeley B. Jones Miss C.L. Williams</p>

	<p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1189</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Adeiladu estyniad i dŷ annedd.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mrs. Angela Suckley o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
46.7	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> Uned 2A Parc Cyflogaeth Ffordd Cefndy, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Cefndy</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> J. Ball Mrs. P.M. Jones P. Prendergast</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1139</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Newid defnydd o B1 i B2 (Gorsaf Brofi MOT a Mân Atgyweiriadau i Gerbydau)</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. Simon Jones, Glan Aber Auto Repairs Ltd., 3 Parc Luned, Bae Cinmel.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
46.8	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> 48 Burns Drive, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Plastirion</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> K.R. Jones T. Thomas</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1155</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Cadw modurdy newydd.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. T. Ledden o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad yn ddarostyngedig i amod yn rhwystro defnyddio'r modurdy yn fasnachol.</i></p>
46.9	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> Pen Y Bryn Cottage 1 Pen Y Bryn Cottages Morfa Cwybr, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Derwen</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard Miss E. Jones</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1216</p>

	<p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Adeiladu estyniad un llawr ar ochr y tŷ.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. a Mrs. Steve ac Anna Beacall o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>
46.10	<p><b><u>LLEOLIAD Y SAFLE:</u></b> 113 Ffordd Derwen, y Rhyl.</p> <p><b><u>WARD:</u></b> Derwen</p> <p><b><u>CYNGHORWYR Y WARD:</u></b> Mrs. J. Chamberlain Jones Mrs. E.M. Chard Miss E. Jones</p> <p><b><u>RHIF Y CAIS:</u></b> 45/2017/1214</p> <p><b><u>DISGRIFIAD:</u></b> Tynnu ymaith porth presennol ac ystafell haul ar du blaen yr adeilad ac adeiladu estyniadau un llawr yn nhu blaen a chefn y tŷ.</p> <p><b><u>YMGEISWYR :</u></b> Mr. Stan Taylor o'r cyfeiriad uchod.</p> <p><b><u>PENDERFYNIAD:</u></b> <i>Dim gwrthwynebiad.</i></p>

#### 47. **TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: .....

Dyddiad: .....